



Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Neath Port Talbot Council

Dyddiad/ Date	7fed Ionawr, 2021
Rhif Ffôn/ Direct Line	01639 763298
Ebost/ Email	
Cyswllt/ Contact	Aled Evans
Eich cyf / Your ref	
Ein cyf/ Our ref	AE/KW

Annwyl Riant / Gofalydd,

Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno y dylai pob ysgol symud i ddysgu ar-lein tan Ionawr 18fed.

Bydd ysgolion yn aros ar agor i blant gweithwyr critigol a dysgwyr bregus; bydd ein hysgolion arbennig hefyd yn aros ar agor, yn amodol ar asesiad risg, yn yr un modd â'n Canolfannau Cymorth Dysgu. Cynghorf chi i drafod eich amgylchiadau unigol gyda phenaethiaid perthnasol.

Mae ysgolion yn parhau i fod yn lleoliadau diogel. Maent yn gweithredu o dan asesiadau risg sy'n cael eu gwerthuso ac yn defnyddio mesurau rheoli cadarn yn seiliedig ar bedwar ymddygiad amddiffynnol allweddol - golchi dwylo, pellhau cymdeithasol, awyru a gwisgo gorchuddion wyneb. Mae'r ymddygiadau hyn yn parhau i fod yn effeithiol wrth leihau lledaeniad yr amrywiad newydd o'r firws Covid-19 os glynir wrthynt yn gywir.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod y gall lleoliadau addysg sy'n agored gyfrannu at gymysgu cymdeithasol ehangach ac o gofio bod cyfraddau heintiau yn parhau i fod yn uchel yn CNPT, rydym yn croesawu'r penderfyniad i symud at ddysgu ar-lein. Mae ein hysgolion wedi paratoi'n dda ar gyfer cyflwyno addysg ar-lein ac rydym yn hyderus y bydd y ddarpariaeth yn ysgogol ac yn berthnasol, gan adeiladu ar ddysgu blaenorol eich plant.

---

**Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes**  
Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes  
Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ  
Ffôn 01639 763298

**Education, Leisure & Lifelong Learning**  
Director of Education, Leisure & Long Learning  
Civic Centre, Port Talbot, SA13 1PJ  
Phone 01639 763298

[www.npt.gov.uk](http://www.npt.gov.uk)

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.  
We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.

Byddem yn annog pob rhiant / gofalydd yn gryf i ymgysylltu ag ysgolion er mwyn i'w plant elwa'n llawn ar ddarpariaeth gartref neu, lle bo hynny'n berthnasol, cyrchu dysgu yn eu hysgol.

Bydd y ddarpariaeth addysgol yn parhau a bydd y dysgu'n cael ei drefnu bob dydd wedi'i fodelu ar batrwm arferol. Rydym yn cynghori'n gryf bod pob disgybl yn paratoi ar gyfer eu diwrnod ysgol fel y byddent yn gweneud fel arfer ac i fynychu eu darpariaeth dysgu o bell yn yr un ffordd yn union ag y maent ar ddiwrnod ysgol. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru adolygu ei phenderfyniad dros yr wythnos neu ddwy nesaf ac yng ngoleuni penderfyniadau a wnaed eisoes gan lywodraethau eraill y DU, mae'n rhesymol disgwyl y gellid ymestyn y trefniant hwn. Felly mae'n hanfodol bwysig nad yw dysgu o bell yn cael ei ystyried yn drefniant byrhoedlog a dylai'r holl ddisgyblion gymryd rhan yn y ddarpariaeth hon er mwyn parhau â'u haddysg a'u datblygiad.

Bydd athrawon eich plant yn dal i arwain eu dysgu ar yr adeg hon. Dilynwch yr hyn y mae'r ysgol yn ei osod. Dylech siarad ag ysgol eich plant yn gyntaf os ydych chi eisiau help a chynghor ychwanegol ar sut i gefnogi eu dysgu. Mae athrawon eich plant yn eu hadnabod yn dda a byddant am helpu, er enghraifft gyda chynghor am:

- y ffordd orau i gefnogi dysgu eich plant
- sut i gael gfael ar gymorth ar gyfer eu hanghenion penodol
- beth i'w wneud os oes gennych chi neu'ch plant gwestiynau am eu gwaith
- beth i'w wneud os ydych chi neu'ch plant yn teimlo bod gwaith ysgol yn llethol
- beth i'w wneud os nad oes gennych fynediad at ddyfais addas wedi'i chysylltu â'r rhyngwyd i gael mynediad at weithgareddau dysgu ar-lein gartref (mae help ar gael i gefnogi teuluoedd trwy'ch ysgol neu'ch awdurdod lleol).

Dylai ysgol eich plant bob amser fod yn bwynt cyswllt cyntaf i chi ac os ydych chi'n cysylltu ag ysgol neu athrawes / athro eich plant dylech ddefnyddio'r sianeli cyfathrebu y mae eich ysgol wedi'u sefydlu ar gyfer hyn.

Disgwyliwn i ysgolion fod yn cyflwyno cymysgedd o wersi byw, gwersi wedi'u recordio a chyfeiriad at adnoddau dysgu. Disgwyliwn i ysgolion gysylltu â disgyblion yn unigol lle bernir bod hyn yn angenrheidiol a thrafod cynnydd mewn dysgu gyda disgyblion a rhieni / gofalwyr.

Bydd effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon yn cael ei fesur, i raddau helaeth, yn ôl y graddau y mae disgyblion yn ymgysylltu ag ef. Mae gan ddisgyblion ran allweddol i'w chwarae i sicrhau bod y profiad hwn yn un ystyrlon.

Rydym yn cydnabod bod y rhain yn amseroedd heriol yn ein bywydau. Fodd bynnag, rhaid i ddysgu barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i blant a phobl ifanc. Gellir gwneud y trefniadau hyn i weithio'n effeithiol a gallant fod o fudd creiddiol i'n disgyblion - eich plant.

Er bod gan bob un ohonom gyfrifoldeb i aros gartref lle bynnag y bo modd a chadw at y cyfyngiadau a osodir gan Lywodraeth Cymru i atal cyfraddau heintiau, mae gennym gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod dysgu'n parhau i oleuo hyd yn oed ein dyddiau tywyllaf.

Yr eiddoch yn gywir,



Aled Evans

*Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes,  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot*